# Glas

Bwletin misol Llén natur

Rhif 175
Medi 2022

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn




Llun Plas Newydd

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd
Mae elfennau o Brosiect llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

Rhif Elusen Cymdeithas Edward Llwyd 1126027

# Pysgod yn nyddiaduron William Bulkeley

**Ymchwil gan Dewi Lewi**

**Ail rhan: PYSGOD A CHREGYN-PYSG YN NYDDIADURON WILLIAM BULKELEY 1734-43 ac 1747-60**

Yn ychwanegol i'r 121 o gyfeiriadau a gafwyd at *fish* (Glas 174) deuthum ar draws 97 o gyfeiriadau at brynu pysgod neu gregyn-pysg penodol. Yn y cofnodion yma ceir awgrym fod William Bulkeley yn prynu gwahanol fathau o bysgod a bod elfen o'r *gourmet* ynddo. Cefais saith cyfeiriad at *crab fish* a'r pris a dalodd amdano yn amrywio o ddwy geiniog i chwe cheiniog.

Yn ôl y disgwyl, misoedd yr haf oedd y misoedd i brynu *crab fish*. Ceir llawer mwy o gofnodion at brynu *lobster*. Mae misoedd prynu cimwch yn amrywio tipyn mwy o gymharu â chranc. Unwaith eto mae'r pris a dalwyd am gimwch yn amrywio o ddwy geiniog i chwe cheiniog.

Ceir mwy o gyfeiriadau at brynu wystrys na'r un o'r cregyn-pysg eraill. Mae'r cofnodion hwnt ac yma yn rhoi syniad i ni o bwysigrwydd y cregyn yn y gymdeithas oedd ohoni fel y dengys y cofnod canlynol:

> **03/06/1757 -** ***Set Tyddŷn Llwchan in the parish of LLanfair yn Neubwll This day to Hugh Lewis for the term of Seaven years to comence [there is a cup-shaped line over the 'm' sw] at Allsts. next at the yearly rent of four pounds clear of all taxes, together with the yearly present of two hundred Rhoscolyn Oysters, i hundred at Allsts. & another hundred at Christmas, & to be paid for an –other hundred to be brought yearly at Candlemas:***

Mae'n amlwg hefyd bod William Bulkeley yn prynu nifer sylweddol o wystrys ar adegau a bod y cregyn wedi eu casglu'n lleol:

> **23/11/1736 -** ***6d for ½ hundred of Rhoscolyn Oysters–***
> **30/10/ 1738 -** ***pd. 6d for half a Hundred of Oysters.***
> **06/01/1742 -** ***pd. 6d for Cemaes Oysters .***

Unwaith eto cawn gip olwg ar faint oedd William Bulkeley yn ei wario ar fwyd a diod o'i gymharu a'i roddion elusennol:

> **12/12/1750 -** ***pd. 6d. for bread , 6d. for Oysters, & 4d. for Whiteings: and gave 10s. 6d. to an old reduced Gentlewoman to provide something for herself that She may with a Chear full heart celebrate the approaching happy Festival of our Saviour's Birth.***

Er syndod i mi, prin iawn yw'r cyfeiriadau at gregyn duon. Dim ond tri chyfeiriad y deuthum ar eu traws:

> **05/03/1740 -** ***gave the Woman that brought me Muscles from Llysdulas 6d.***

> **09/03/1740 -** ***gave 6d. to a woman that brought Muscles from — Llysdulas.***

> **05/02/1760 -** ***gave 3s. to Thomas Hughes a Son of my Sister Elizbeth, a very worthless lazy fellow that brought hither 2 or 3 quarts of Muscles.***

Mae'n amlwg bod angen magu *muscles* ar ei nai !

O'r holl bysgod, y cyfeiriadau at brynu penwaig yw'r mwyaf niferus. Unwaith eto mae'r cyfeiriadau yn adlewyrchu rhai o nodweddion cymdeithasol y cyfnod ynghŷd â'r cyflenwad a'r pris. Gellir gweld mai pysgotwyr lleol oedd yn cyflenwi'r pysgod:

> **27/08/1735 -** ***a great quantity of Herrings in that Market 7 or 8 a penny, some taken in these parts —***

> **19/09/1737 -** ***The Wind W. a fair, clear dry day, & very pleasant. the fisher men at Wylfa had some herrings these 3 last nights, which had been in a manner lost this 20 years—***

Yn yr ugain mlynedd cyn 1737, roedd penwaig yn brin yng nghynefin Bulkeley yng ngogledd Môn (ac yn fwy cyffredinol efallai?):


> **11/08/1739 -** ***these 4 or 5 days last past a great many Herrings have been taken at Cemaes but are dear enough yet, being sold at ye rate of 1s. 6d.a hundred***

> **16/11/1759 -** ***pd. Rolant ' Wiliam Rolant 15s. for 1500 hundred (long hundred ) herrings for Salting for the people.***


> **08/09/1738 -** ***pd. Edward Bulkeley the Taylor 16s. 6d. for a Herring Net very little used & delivered it to Rowland ap William Rowland ap Robert,*** **(alias y Maharen bâch)** ***to be used by him for half the Herrings it takes.***

Mae'r un peth yn wir am gwyniaid môr er mai dim ond chwe chyfeiriad y deuthum ar eu traws. Diddorol yw gweld mai gwaith teiliwr – ac yn un o'r Bulkeleys hefyd - fu'n gwneud a gwerthu rhwydi pysgota:

> **28/12/1737 -** ***abundance of large Whiteings taken today at Cemaes bay and sold in Llanfechell very cheap 7 or 8 a penny some of them 13 to 14 inches long***




Gaeaf oedd tymor yr wystrys i Bulkeley a haf oedd tymor y crancod ar cimychiaid




Yr hydref hwyr fe ymddengys oedd penllanw tymor y penwaig

Deuthum ar draws un cyfeiriad at "cod fish" sydd siwr o fod yn adlewyrchiad o brinder y pysgod yma ar y farchnad yn y cyfnod:

**"31/5/1740 - *pd. 3d. for a Cod fish*"**

Mae'n ymddangos ei fod wedi cael *bargen* wrth brynu *3 Sea Tench* am 3d a hefyd y *4 Morts* (eogiaid teirblwydd?) ac un facrell. O bosibl mai merfog du *(Black Bream)* oedd y *Sea Tench*. Pysgodyn efallai nad oedd ei ansawdd cystal â phenfras ac felly'n rhatach:

***"2/8/1749 - Pd. 3d. for fish, being 3 Sea Tench, & one of them weighed near 7 pounds weight."***

***"1/8/1740 - pd. 4d. for fish, Viz. 4 Morts about 16 inches long & one Mackerell."***

Dyma'r unig gyfeiriad at facrell y deuthum ar ei draws. Buaswn wedi disgwyl dwad ar draws mwy o gyfeiriadau at facrell yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Syndod arall i mi oedd cyn lleied o gyfeiriadau sydd at brynu eog:

**10/07/1749 - *gave 6d. to Solomon Mathew my Brother – Lewis's Man that brought me a piece of very fine Salmon.***

**14/07/1751 - *gave Salmon to Mathew my Brother Lewis's Servant that brought me a present of half a large Salmon, 6d.***

**02/06/1753 - *gave 1s. to a– woman that brought me half a Salmon from Llysdulas as a present, – that half weighed Eight pound .***

Ai rhodd y 'tŷ mawr', Llysdulas, oedd yr olaf?

**30/07/1755 - *gave the man that brought me a large Salmon from Mr. Thomas Ellis, 6d.***

**18/06/1756 - *gave 6d. to a woman that brought me a present of Salmon from LLysdulas***

**11/07/1756 - *gave a lad 6d. that brought me half a Salmon from LLysdulas*** .

Codwyd Llys Dulas gan berchennog gwaith copor Mynydd Parys ac fe'i dymchwelwyd yn 1975

**16/06/1757 - *Paid a Bangor Man 2s. 2d. for six pound weight of Salmon being about one half of it cut a cross above the navel, at the rate of 4d. a pound.***

**22/07/1758 - *pd. 1s. for a Salmon*.**

**24/07/1758 - *gave 6d. to a lad that brought me a Salmon from Grace Mostyn***

Cyfeiriad diddorol yw'r cyfeiriad at brynu brwyniad (*anchovy*).

**03/07/1752 - *1s. 2/1 for a pound Pot of Anchoves***

Hyn efallai yn dangos yr elfen o'r *gourmet* yn William Bulkeley os mai pysgod amheuthun fel heddiw oedd brwyniaid - siwr o fod nad oedd yn eu defnyddio ar ei bitsa!


**Darllen hynod ddiddorol a dadlennol iawn yw'r cyfeiriadau at bysgod a chregyn-bysg yn nyddiaduron William Bulkeley.**


## Cofio oes y tramp

**Pryd a pham daeth oes y tramp i ben? Mae'n werth cofio perthynas pobl y tai ffermydd â nhw. Beth yw'r gwahaniaeth meddech rhwng 'tramp', 'sipsi Roma' 'teithiwr' a rhywun sy'n ddigartref heddiw – a beth yw'r gwahaniaeth yn ein hagweddau tuag atynt ar y pryd a heddiw. Dyma rai o'ch hatgofion...**

Iau 30 Gorffennaf 1914 - Cynllwyd, "Andros o wres. Corddi. Tanu mydyle Rhosddu a Caesarnddu - wedi eu torri ers pythefnos. Eu cario yn hulogod - a pheth i`r helm. **Y ddau dramp yn mynd ffwrdd wedi cael brecwast.** Annie Roberts yma minos."

**Dyddiadur Mary Davies**



Sipsi Lovell oedd yn byw mewn pabell yng nghoed Portmeirion yn y 1940au a'r 1950au.

Llun o gyfrol 'Minffordd - rhwng dau draeth' Golygydd Aled L. Ellis a Nan Griffiths (cyh. preifat)

## John Price

■ John Price yn dal i grwydro Pen Llŷn yn y '60au.

**Greta Hughes**

■ Dwi cofio fy nain yn son am John Price lawer gwaith fydda yn dod i Rhosydd [Llannor, Pwllheli] ei chartref ar y pryd yn y 60au. **Bethan Vaughan Davies**

■ John Price 50au a'r 60au ac yn cael paned a brechdan a chysgu yn y tŷ gwair. **Olga Wyn Thomas**

■ Dwi'n cofio John Preis yn galw acw pan oeddwn yn blentyn. Roeddwn yn ei weld yn cerdded wrth i mi ddod adref o'r ysgol [Llaniestyn – bu i ysgol Llaniestyn gau yn 1969]. Fina wedyn yn mynd drosodd i'r cae a rhedeg ag allan dros ben giat a rhedeg i ddweud wrth Mam ei fod ar y ffordd acw. Mam yn gwneud paned a bechdan iddo. John yn mynd a deud diolch am y te ar hen frechdan na, doedd hono ddim gwerth diolch amdani roedd hi yn sych…. nid bob amser chwaith oedd yna ddiolch i gael. Un felly oedd o 'de, y cradur, dda fod bawb yn ei adnabod.

**Netta Pritchard**

■ Oedd Nain yn son lot amdano, cysgu yn clawdd wrth Pant Glas oedd o yn tŷ gwair acw hefyd medda hi.

**Dawn Dop**

■ Doedd o'm hefyd ochra mynydd Nefyn? **Osian Williams**

■ Cofio un yn galw yn Llwyncoed, Cwm-Y-Glo pan oeddwn yn plentyn yn y 70au. Roedd fy nhad yn dweud enwau rhai ohonynt - Syr Ifor, Mr Murphy, a John Price [gweler isod] - Fydda fy nhad yn rhoi lifft i John Preis yn amal a fina yn cuddiad yng nghefn y fan am bod gen i ofn o. Mi fydda John yn mynd i tŷ Nain a Taid yn Cwm Pennant yn amal hefyd a gofyn am "sglyfath o'r hen oxo yna" a cysgu yn tu gwair. **Jane Roberts**

■ Byddai John Preis yn mynd i Gorllwyn ble byddai fy hen Nain a Taid yn byw. Ar ôl iddynt symud i Aberdaron i fyw byddai yn dwad i'w gweld. Dwi yn ei gofio hefyd.

**Wenda Bryn**

Fydda John Preis yn dod i Caffi Bodawen Pwllheli i nôl paned o de yn y 60 au pan oeddwn yn gweithio yna .

**Llywela Jones**

## Paddy

Mr. Paddy, Gwyddel ma raid, fydda'n arfer galw acw [Trefor]. Eistedd ar y stepan i fyny i'r ardd fydda fo tra byddai mam yn gwneud brechdanau iddo ac yn llenwi ei biser hefo te iddo fynd ar ei daith. "Thank you, kind lady" bob tro wrth ymadael. **Awen Hamilton**

Cofio cardotyn oedd yn cael ei alw'n Paddy Talsysarn o gwmpas yn Y Groeslon, ydio'r un person tybed?. **Ifor D Williams**

50au hwyr 60au cynnar dwi'n cofio Washi bach a Padi dwi'n meddwl, Llangristiolus; fe 'roeddent yn arfar cysgu ar adegau yn yr odyn galch o dan fferm Lledwigan…. **Derec Owen**

## Robin Angau Bara

Robin Angau Bara oedd un a eisteddai ym môn clawdd wedi tynnu'i grys, ac yn crafu yn y blewiach rhyfeddol o gwmpas ei 'sgwyddau, a minnau tua 8 oed ofn mynd heibio iddo ar y ffordd adre o'r ysgol. Cafodd yr enw oherwydd ei allu i fwyta torth gyfan a llond piser dau beint o de oer... Robin Anga' Bara (gallai ladd torth mewn dim amser!) ; Niwbwrch. **Tecwyn Owen**

## Washi bach

Ia, Washi, dod o gwmpas Capel Coch - Ynys Môn. Mam bob amser yn rhoi powlen o fara te iddo. Tori llond powlan fawr o fara. Tepotiad o de drosto, siwgwr a sleisan o fenyn cartre. Wedyn tori tamad rhyw deisen oedd "ar y go" a'i wrapio mewn papur *wax Corn flakes*. Fyddai'n rhoi yn ei boced. Chware teg fyddai bob amser yn diolch. Ag off afo dan ganu. Tydwi ddim yn cofio'i weld yn y 70 degau. **Sylvia Lee**

## Mr McEnzie

Ma' gen i brin gôf o un arall hefyd o'r enw Mr Mc Enzie. **Derec Owen**

## Yorkie neu Darkie

■ Dw i'n cofio rhai o'r 50au a'r 60au yn Nolgellau. Roedd na un a alwem yn *'Yorkie'* a ymwelai bob yn hyn a hyn ac a gysgai yn y sgubor ar Rhiw Garreg Feurig. Roedd na un arall oedd yn ddyn byr, gwengar, a gludai ei eiddo mewn hen bram. Meddwl mod i'n cofio'n gywir! **Elen Huws**

■ Cofio am un o'r enw *Darkie* yn dod i Felin Newydd Rhydymain. Tybed yden ni yn cyfeirio at yr un person? Wnes i erioed nabod *Darkie* fy hun, dwi ddim yn meddwl ei fod o bryd tywyll **Huw Alun Evans**

■ Efallai wir yr un person! *'Yorkie'* dw i'n gofio - ond gan y byddem ond wedi clywed yr enw (nid ei ddarllen), efallai mai'r un person oedd o - plant Rhydymain a phlant Dolgellau ag enwau chydig yn wahanol iddo. **Elen Huws**

Cofio hen wraig yn Aberdaron fydda yn eistedd wrth y pentan yng nghanol mwg ac roedd hithau yn ddu fel glöyn. Diffyg ymolchi ar *Darkie* hefyd efallai!! **Elizabeth Jones**

Dwi yn cofio *Yorkie*. Cofio ei weld yn eistedd ar fainc a oedd pryd hyny ar rhiw Garreg Feurig, Dolgellau. Fel teulu yn mynd am dro o hyd yn stopio i siarad ag e. A dad yn rhoi rhyw geiniog neu ddau iddo. **Eirian James**

## Teulu Lovell

Os ewch chi i 11:11 ar y ffilm 'ma, hanes ac agweddau tuag at y 'tramp' yn Nolwyddelan. **Llinos Griffin**

**Wnesh i fwynhau hwn yn fawr. Hanes tramp yn gadael marc ar gilbost y fferm i gyhoeddi i drampiau eraill bod yna fwyd i gael yno. Brawdoliaeth y trampiau Gwyddelig? Wedi mwynhau hanes y sipsiwn hefyd ar ôl hanes y trampiau. Teulu'r Lovells yn dal o gwmpas Caernarfon. Golygydd**

## Ifor Wood

Dwi'n cofio un o'r enw Ifor Wood ar ddechrau'r 70au yn Tyddyn Bach, Llanfachreth , Meirionnydd yn tannu tyrrau tail am ei fwyd a'i de . Roedd yn cysgu yn y das wair. **Ann Hughes**

Teulu Abram Wood tybed?

## Jo Philpin

Cof plentyn am Joe Ffilpin neu Philpin o Iwerddon 50/60 degau ??? Roeddwn yn blentyn y 50degau ar fferm yn Cefnddwysarn. Roedd yn galw bob hyn a hyn. Ei gofio yn rhoi hances poced immi oedd wedi ei ffeindio ar y ffordd ac roedd tar arno !!! **Alwena Joyce**

Cofio fy nhad yn son am Joe Ffilpin. Sarnau **Bedwyr Owen**

## Hyrbi

Yn y 60 degau rwyn cofio un hen foi yn dod i Gnythog Bellaf ardal Parc y Bala at Hilda Roberts, o'r enw Hyrbi, byr am Herbert oedden ni 'n meddwl. At y cynhaeaf doi bob blwyddyn, roedd yn gofyn i'm tad am binshed bach o faco, ac yn dweud stori am gysgu mewn cut mochyn bach delia rioed, mwswg ar y llawr a sach ar y drws - lle *ideal* i gal noson o gwsg ar ôl cal tropyn o'r meths. Dwin cofio ei drwyn piws hyd heddiw, hen fachgen clen wedi bod ar y gynnau mawr rhyfel cynta medde nhad ac wedi cael *shock* a ffwndro PTSD. **Arfon Jones**

## Now Siani

Dwin cofio Now o gwmpas Sbytu [Ysbyty Ifan] yn y 60au. Dod i weithio i gael pres a bwyd a dillad. Roedd yn dod i 'sgaru tail. Roedd ffermwyr gyda sypiau bychain o dail gwartheg AR HYD y caeau AC Roedd yntau yn dod i'w chwalu gyda fforch! Now Siani oedd yn cael ei alw! Weithiau roedd wedi dod yn y nos AC wedi mynd i gysgu i'r gwellt mewn llofft allan! Dipyn o fraw i fy nhad yn y bore wrth fwydo'r gwartheg! **Elen Edwards**

Mae gen i frith gof ohono yn dod rownd Nebo hefyd pan oedden yn aros hefo Nain! Dwi'n cofio Now Siani yn dod i weithio yn Ffrith Gleision ac yn begio am swllt neu ddau gan mam a dad ac yna rhoi pishyn chwech yn ôl i mi !! Atgofion hapus! **Emily Davies**

Syr Ifor, Mr Murphy a John Price (uchod): Cofio un yn galw yn Llwyncoed, Cwm-Y-Glo pan oeddwn yn plentyn yn y 70au. Roedd yna *tray*/plat metal yn cael ei gadw ar *'beams'* y tas wair ac roedd o yn dod a fo i fyny'r ty a mam yn gwneud bechdan a rhoi dŵr poeth a te iddo. Roedd fy nhad yn dweud enwau rhai ohonynt- Sir Ifor, Mr Murphy, a John Price. Roedd rhyw fath o arwydd ganddynt i adnabod y ffermydd oedd yn rhoi croeso (ond ni wyddom beth oedd y marc) fy nhad yn enwi ffermydd lleol lle roedd un wedi dweud ble roedd croeso a dim croeso i gael, a cofio fel plentyn fel roeddynt yn cael jwg o de gan ei fam a rhoi ei getyn a *matches* iddi gadw dros nos. **Nerys Williams**

## Di-enw

Mae gen i gô plentyn o dramp yn dod i Rhewl ger Rhuthun yn rheolaidd yn nechrau'r 70au. Daw i eistedd ar ochr y palmant ac oedden ni'n mynd â phaned o de allan iddo. Mae'r atgof yma wedi dod â darlun ein hen debot yn syth i'r côf! **Ruth Williams**

Gen i frith gof o rai o gwmpas Pontrhydfendigaid diwedd y 50au a'r 60au cynnar. Teithio yn dilyn patrwm gwaith amaeth **Shân Ashton**

Un yn galw yn gyson ar fferm fy nhad-cu, Pencnwc, Pentrecagal ger Castell Newydd Emlyn. Yn cysgu bob tro yn y sgubor, a'n nhad-cu yn ofnus y byddai yn rhoi'r lle ar dân! Gan fod gan fy nhad-cu chwech o ferched (mam yn un ohonynt).

Byddai'r hen drempyn yn gofyn *'Where's your son?'* Tadcu yn ateb yn ei Saesneg gorau *'Oh, he's at Oxford'*!!!!

**Beryl Williams**

## Cyffredinol


Bydda i'n licio gwneud paned gan roi llwyaid o ddail tê yn y mwg. A ffrind yn ei alw yn dê trempyn....te tramp - heb ei wneud mewn tebot. ' Gwaith Tramp' hefyd sef hel cerrig o gae cyn ei hadu **Dafydd Bates**

Diolch i'ch sylwadau, cynigiaf 3 ateb i'r cwestiwn 'pam a phryd daeth oes y tramp i ben.

1. Mecaneiddio gwaith amaethyddol tymhorol;
2. y genhedlaeth o ddioddefwyr PTSD ar ôl y rhyfel gyntaf yn marw;
3. ffyrdd prysur.

**Dewch a mwy o'ch atgofion – gan gynnwys mannau eu beddi.** **Golygydd**






Wikimedia

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni: llennatur@yahoo.co.uk

# Bioblits Plas Newydd

Ymddiriedolaeth Genedlaethol — Bioblits Llên natur 28 Gorffennaf 2022 — Plas Newydd

Roedd hi'n fraint cael treulio diwrnod arbennig o ddal gwyfynod efo criw Llên Natur a'r arbenigwyr ym Mhlas Newydd, Ynys Môn. Fel ceidwaid cefn gwlad mae hi'n hynod bwysig i gasglu data o arolygon fel hyn. Mae dros 250,000 o wahanol fathau o wyfynod wedi eu cofnodi ar Y ysoedd Prydain, ac, ers i wyfynod esblygu tua 150 Miliwn o flynyddoedd yn ôl mae'r lindys a'r gwyfynod wedi addasu ar gyfer bwydo ar wahanol blanhigion mewn nifer o gynefinoedd.

Gall y wybodaeth sy'n deillio o'r arolygon roi syniad i pa mor iach yw ein ecosystemau, gan fo'r gwyfynod yn anifeiliaid di-asgwrn cefn sy'n rhan hynod bwysig yng nghlytwaith yr ecosystem. Mae'r gwyfynod yn beillwyr hynod o bwysig, ac mae'r gwyfynod a'r lindys ei hunain yn ffynhonnell bwysig o fwyd i amffibiaid, mamaliaid bychan a nifer o adar.

Mae poblogaethau o wyfynod yn gallu cael eu heffeithio gan newidiadau yn yr amgylchedd megis llygredd aer a llygredd dŵr, yn ogystal a newid hinsawdd. Mae hi'n hynod o bwysig felly i ni fel naturiaethwyr barhau efo cofnodi gwyfynod fel mesur o newid yn ein amgylchedd.

Yn ôl *'Butterfly Conservation'* mae nifer y rhywogaethau o wyfynod sydd wedi eu cofnodi wedi gostwng 29% ers 1968, gyda 60 rhywogaeth wedi diflanu yn ystod yr 20fed ganrif. Gan barhau gyda'r arolygon gallwn weld natur y newid, a gwneud y newidiadau angenrheidiol ar ein safleoedd er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau posib i'r gwyfynod ac i'r ecosystemau ehangach.

Un ffordd yr ydym yn ceisio gwneud hyn yw gwella bioamrywiaeth ein tiroedd pori drwy gyd-weithio â'n tenantiaid. Drwy dorri'r gwair ar gaeau blodau gwyllt Plas Newydd wedi canol Awst, mae'r hadau wedi datblygu mewn nifer o rywogaethau megis *Rhinanthus major*, *Lotus corniculatus*, *Centauria nigra* a *Cerastium fontanum*. Mae'r gwair wedyn yn cael ei gasglu a pheiriant arbennig, ac yna, o fewn 2-3 awr yn cael ei wasgaru ar gaeau sydd wedi eu gwella. Y nôd yw sefydlu ffynhonnell o hadau yn y pridd a fydd yn cynyddu nifer y rhywogaethau yn y caeau hynny. Bydd hyn yn ei dro yn darparu mwy o fwyd a chyfleoedd peillio i anifeiliaid di-asgwrn cefn fel y gwyfynod gwych a gofnodwyd ym Mhlas Newydd.

**Guto Roberts: Prif Warden Plas Newydd**




Llun Plas Newydd

# BIOBLITS PLAS NEWYDD

Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Plas Newydd





28  Gorffennaf 2022, mae Guto Roberts, prif drefnydd y Bioblits yn barod!



Diwrnod hynod brysur i Bruce Hurst, cofnodwr swyddogol Gwynedd. Mae'n gwisgo ei grys-T sbesial



Tua 75 math o wyfynod wedi eu cofnodi ar y diwrnod



Cafodd 5 trap eu gosod o gwmpas Plas Newydd



Kristen, Duncan, Bruce a Guto



Bruce yn agor un o'r trapiau



Ambell i ymwelydd - mi wnaethom ni groesawu aelodau o'r cyhoedd er nad oedd y Bioblits yn ddigwyddiad cyhoeddus.



Weithiau mae gwyfynod yn dianc!





Gwaith manwl yw'r broses o gofnodi



Mae cyfrolau arbenigol yn hanfodol



Mae'r enwau ar gael yn Saesneg ac yn y Gymraeg

## Atgofion fferm Plas Isaf ❸

***Atgofion Dr Gareth Howells o'i ymweliadau gwyliau fel bachgen yn y 1950au â fferm Plas Isaf, Llanbedr Dyffryn Clwyd. Cyn ei ymddeoliad roedd Gareth yn Ddirprwy Swyddog Rhanbarthol y Cyngor Gwarchod Natur. Mae'n destament byw gan fachgen sylwgar, deallus a mymryn yn ddiniwed wedi ei ysgrifennu mewn Saesneg coeth a gafaelgar.***

### *Pigs and Sheep*

***Pigs***

*There were two pigsties with an enclosed railed area in front into which they could be let out to root about. The sties were in a low stone building with strong doors in front and adjacent openings running the front length for light and air, about 3 foot above the ground. There were normally two sows, of Large White breed I believe.*



Fig 6a Sow with part of litter

*A boar was hired in to service them when required. Occasionally a sow was let out into the stack yard to root around for a short while. Aunty Mary recalled once seeing a sow suddenly grabbing an incautious hen and gulping it down. The piglets were kept until they had reached a size where they could be sold. Before this, the males were castrated. This was achieved by locking the sow in the sty, while the piglets were outside. A stock trailer was parked nearby and the piglets in the sty yard were caught one at a time and put in the trailer with the males being castrated before they were put in the trailer. This operation was carried out by Wlliam Owen and Tecwyn, who caught a male piglet held it upside down sliced the skin above a testicles pressed it out and cut through the cord below then ran iodine over the cut, repeated the operation and put the piglet in the trailer*



Fig 6b William Owen feeding weaners for eventual sale

*before catching another.. This operation resulted in very loud squealing and the sow in the sty would become frantic and try to get out. I remember once, the sow broke out and rushed at us roaring and with jaws open wide and we had to beat a retreat rapidly into the trailer and pull up the door just before she reached us. We let out the female and castrated piglets and while the sow was attending to them managed to get her back into the sty with these piglets. The remaining males were dealt with and then returned to the sty. When the piglets were of sufficient size they were sold, usually taken to be auctioned at Ruthin market. Sometimes one young pig was kept and eventually slaughtered by a visiting butcher in the wash house opposite the farm house. The resulting joints were sold, but one or two hams were kept hung on the hooks already mentioned in the main living/ dining room.*

***Sheep***


*Sheep, Suffolks, I think ( see Fig.6.) were kept but were not, as far as I can recall, an important part of the farming operation. and I vaguely remember the shearing and helping to pack the wool into large hessian sacks. I more vividly recall dosing the sheep with a large oval-shaped pill which was administered by putting the pill into one end of a short length of rubber hose which it fitted quite tightly, the hose was then put carefully into the ewe's mouth, just as far as the top of the throat and then a wooden rod was pushed carefully down the hose to eject the pill so that the sheep had to swallow it. This was a quick and trouble- free procedure.*



Fig 7 Suffolks being fed

**Dyma ddiwedd RHAN 3 atgofion Dr Gareth Howells. Byddan yn cyhoeddi'r rhanau eraill yn rhifynau Glas sy'n dod. Mae'r atgofion i gyd ar y ddolen hon.** **(Google Chrome)**

## Goleuni'r Gogledd, Llanddulas



Llun Llion Griffiths

Goleuni'r Gogledd *(Aurora borealis)* 19 Awst 2022 o Landdulas. Dyma linc i gasgliad Tywyddiadur-Llên Natur o achosion niferus o Oleuni'r Gogledd eraill. rhai ohonyn nhw o Gymru.

Plas Newydd

Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Gorffennaf 28

Clwb y Llygaid Bach

Bioblits Llên natur 28 Gorffennaf 2022

# Sêr y diwrnod



**Siobyn bwaog** - *Lymantria monarcha* Un o wyfynod prydfertha yn helfa Plas Newydd.



**Carpiog gwar melyn** *Ennomos alniaria* - “Pikachu” ydi llysenw’r gwyfyn hwn - ffordd dda i’w gofio.




**Perlog** *Pleurotypa ruralis Meicro* Gwyfyn a ddosberthir ymysg y “microaid” - un o’r rhai mwyaf yn y grŵp yna ym Mhrydain. Mae’r larfau yn bwyta dail danadl-poethion.



**Rhesen lydan dywyll** *Scotopteryx chenopodiata*. Mae’r gwyfyn hwn yn eitha cyffredin ac mae ei enw’n ei wneud yn hawdd i ddysgu amdano!




**Bachadain raeanog** *Drepana falcataria* - Mae lliw'r adenydd blaen yn amrywio ond ceir blaen bachog, dau smotyn du a dwy linell dywyll, igam-ogam arnynt. GPC



**Fforch arian** *Autographa gamma* - Mae enw’r gwyfyn hwn yn dod o’r nodwedd amlwg iawn sy’n edrych fel “fforch arian”, neu lythyren “y” lliw arian.



Dau droedwas cyffredin *Eilema lurideola* - Roeddent yn edrych yn osgeiddig iawn. Maent yn haeddu eu lle ymysg y sêr y dydd.



**Siobyn cynffon felen** *Euproctis similis* - Mae’r gwyfyn hwn yn brydferth. Dim ond pen ei gynffon sydd â lliw arno, yn wahanol i’w lindysen!



**Chwilen furgyn** *Nicrophorus investigator* - Mi roedd y chwilen hon wedi ymuno â’r gwyfynod!

**Mae CYHOEDDIADAU (ar y wefan) yn gronfa o holl ôl-rifynnau'r Bwletin (Glas erbyn hyn) a phosteri sydd yma. Gellir eu chwilio gydag un chwilair. Cyfraniad Gareth Pritchard yw’r posteri am adar.**

**CLICIWCH!**

Cyhoeddiadau Llên natur

Bwletinau Posteri